**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED NOS LUN, MEHEFIN 27AIN, 2022**

**PRESENNOL**

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin,
Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).
Cyng Arron Wynne, Cyng Nia Clwyd(Cynghorwyr y Sir)

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Anwen Jones Cyng. Dylan Jones, Cyng. Eifion Williams
Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod a hefyd croesawyd y Cynghorwyr y Sir ,Cyng Arron Wynne a Chyng Nia Clwyd i'm plith.

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 9fed o Fai, 2022.

**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

**a) HYSBYSFWRDD MAENAN/CAE CHWARAE MAENAN**

Nododd y clerc fod y gwaith o atgyweirio yr hysbysfwrdd ym Maenan wedi ei gwblhau ynghyd ar gwaith cynnal a chadw o docio y coed a thrwsio y stepiau yng nghae Chwarae Maenan.

b)**YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**

Y pryder am gyflwr hwyneb y waliau tu allan yr Ysgol Gynradd Llanddoged wedi cael ei gyfeirio at y Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**CYNNAL A CHADW**

1. Pryder am gyflwr y ffordd rhwng y groesffordd Carreg Ednyfed a Cae Brychiad – cais i gael y darn yma o'r ffordd i'w darmacio.
2. Pryder hefyd am gyflwr y ffordd o Ffrith Isa i Ffrith Ucha , ( Y clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda
   Emyr o'r Adran Priffyrdd a Chyng. John Owen a Chyng Alun Morris).
3. Twll wedi suddo yn y ffordd wrth Rhiwdafnau Maenan.
4. Twll yn y ffordd ar y gornel o dycha Wigfa, Maenan.
5. Arwydd 30mya wrth Y Wern, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged wedi pydru a dod i lawr.

**UNRHYW FATER ARALL**

**LLINELLAU MELYN, FFORDD TYRPEG UCHAF, LLANDDOGED**

Trafodwy y mater fod cerbydau yn dal i barcio ar y llinellau melyn dwbwl sydd ar draws y ffordd i fynedfa yr ysgol Llanddoged.
Pasiwyd i dynnu llun o'r cerbyd a phasio y gwybodaeth ymlaen I'r swyddogion y Sir.

**DIFFIBRILIWR**

Derbyniodd y clerc neges gan Rheolwr Busnes Ysgol Llanddoged yn holi am wybodaeth pwy sydd yn gyfrifol i wiriadu y Diffibriliwr sydd ar wal yr Ysgol Gynradd Llanddoged. Cafwyd gwybodaeth gan Parafeddyg lleol fod y diffribliwr yn cael ei fonitro gan yr Ymatebwyr Cyntaf . Pasiwyd y clerc y wybodaeth yma ymlaen i'r Rheolwr Busnes yr ysgol.

**HYFFORDDIANT**
Y Clerc i holi swyddogion y sir a oes angen i Gynghorwyr Cymuned fynychu y rhaglenni hyfforddiant I Gynhorwyr.

Arwyddwyd (Cadeirydd) ……………………………… Dyddiad